RCGP CYMRU WALES

# Felly, rydych chi am fod yn Feddyg ?

Dr Dylan Parry

## Felly rydych chi am fod yn feddyg?

Digwyddiad ar-lein rhyngweithiol wedi'i gyflwyno gan feddygon teulu ar gyfer disgyblion blwyddyn 11/12 o bob rhan o Gymru.

rcgp.org.uk/discovergp

# Yr agenda ar gyfer heddiw

- Gair i gall wrth wneud cais i ysgol feddygol
- Datganiadau personol
- Cyfweliadau
- Gwneud y dewis cywir wrth ddewis gyrfa
- Bywyd fel myfyriwr meddygol

# Gadewch i ni fod yn rhyngweithiol

- Defnyddio'r Sgwrs

- Llenwch yr holiadur

# AMDANI!

# Gwneud cais am le ar gwrs meddygaeth – gair o gyngor A gwybodaeth am wneud cais a chwrs Caerdydd

Dr Ffion Williams,
C21 y Gogledd, Bangor

RCGP CYMRU WALES

# Dewisiadau ysgolion meddygol




- 41 o ysgolion meddygol
- > 8,000 o leoedd

- 33 Lloegr
- 5 Yr Alban
- 1 Gogledd Iwerddon
- 2 Cymru

Mae pob ymgeisydd a fu'n llwyddiannus ar ôl yr addasu wedi cael cynnig lleoedd ychwanegol yng Nghymru a Lloegr – felly ni fydd hyn yn effeithio ar eich cais.

# Y gwefannau pwysicaf

Medical Schools Council
Selection Alliance

https://www.medschools.ac.uk/studying-medicine/applications/entry-requirements

Gwefannau ysgolion meddygol rydych chi'n gwneud cais iddyn nhw

GMC – ar gyfer paratoi ar gyfer cyfweliad

# Gair o gyngor wrth wneud cais i ysgol feddygol

- Ymchwiliwch i ba gyrsiau/prifysgolion fyddai'n addas i chi. Mae cyrsiau ysgolion meddygol yn amrywio llawer, felly hefyd prifysgolion
- Ydych chi am fod yn agos at gartref neu ymhell i ffwrdd?
- Gofalwch fod eich cymwysterau o leiaf yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer pob ysgol rydych chi'n gwneud cais iddi. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny, cewch eich gwrthod, waeth pa mor dda yw eich cais fel arall
- Sefwch y prawf medrusrwydd cywir ar gyfer y sefydliad cywir – mae hyn yn golygu efallai y bydd rhaid i chi wneud BMAT ac UCAT ac edrych ar eich sgôr a'r hyn mae'r prifysgolion yn tueddu i ofyn amdano
- Gofalwch fod eich cais wedi'i lenwi'n iawn – mae ymgeiswyr yn hepgor cymwysterau yn rheolaidd
- Gofalwch eich bod chi'n cyflwyno eich cais ar amser – Rhaid iddo ddod i law erbyn 15 Hydref. Ni fydd y rhan fwyaf/unrhyw un o'r ysgolion meddygol yn ystyried ceisiadau a gyflwynir yn hwyrach.

RCGP CYMRU WALES

# Pethau i'w hosgoi….

- Peidiwch â rhoi unrhyw beth yn eich datganiad personol na allwch chi ei gefnogi os gofynnir i chi am eich datganiad personol yn y cyfweliad
- Peidiwch â hepgor cymwysterau – felly, os ydych chi wedi ailsefyll unrhyw arholiadau, bydd angen i chi nodi eich graddau gwreiddiol a'ch graddau ailsefyll ar y ffurflen
- Peidiwch â gwneud cais i gymysgedd o bynciau galwedigaethol e.e. meddygaeth a deintyddiaeth neu feddygaeth a ffisiotherapi neu fydwreigiaeth. Yn aml, mae gwyddorau iechyd eraill yr un mor gystadleuol â meddygaeth, a byddant yn gwrthod eich cais os ydyn nhw'n teimlo mai astudio meddygaeth yw eich dymuniad
- Peidiwch â theimlo bod rhaid i chi nodi pumed dewis. Efallai yr hoffech chi wneud hynny, ond mae llawer o gyrsiau gwyddoniaeth fiofeddygol yn mynd drwy'r system glirio hefyd.

RCGP CYMRU WALES

# Pwyntiau pwysig

- Ceisiwch fod mor sicr ag y gallwch chi fod mai meddygaeth yw'r hyn rydych ***chi*** am ei astudio – mae'n gwrs hir, heriol, a rhaid i chi fod eisiau ymwneud â phobl
- Ceisiwch gael rhywfaint o flas ar y maes – adnoddau RCGP, sgwrs â'r rhai mewn gofal iechyd, lleoliadau os oes modd
- Mae gwirfoddoli o unrhyw fath yn ddefnyddiol – ond mae pob ysgol feddygol yn ymwybodol bod cyfleoedd yn brin iawn erbyn hyn ac mae'n annhebygol iawn y cewch eich cosbi am hyn



RCGP CYMRU WALES

# Camsyniadau

- Rydych chi angen 11A* mewn TGAU – na, ond bydd angen graddau TGAU da arnoch chi, yn enwedig os ydych chi'n gwneud cais cyn Safon Uwch
- Rhaid i gael graddau Safon Uwch disgwyliedig da i gael cyfweliad – na, mae rhai ysgolion meddygol yn anwybyddu graddau disgwyliedig e.e. Caerdydd – felly cofiwch ymchwilio
- Os cewch eich gwrthod, does dim pwynt ailymgeisio - na, mae llawer o ysgolion meddygol yn croesawu ail-ymgeiswyr ar ôl Safon Uwch gan ei fod yn dangos ymrwymiad
- Os methwch chi â chael y graddau Safon Uwch gofynnol, does dim pwynt ailymgeisio – na, os oes gennych chi amgylchiadau sy'n eich esgusodi, bydd llawer yn eu hystyried (edrychwch ar eu gwefan ac e-bostiwch nhw). Bydd rhai ysgolion meddygol yn ystyried arholiadau wedi'u hailsefyll beth bynnag – ond edrychwch cyn i chi wneud cais. Hefyd, mae mynediad i raddedigion (GEMs) yn aml yn derbyn graddau llawer is neu hyd yn oed yn anwybyddu eich perfformiad yn yr ysgol
- Mae angen i chi wneud mwy na 3 phwnc Safon Uwch i wella eich cyfleoedd – na
- Mae'n well gan ysgolion meddygol bynciau Gwyddoniaeth Safon Uwch yn unig – na, dim ond lleiafrif sydd fel hyn e.e. Caergrawnt.

RCGP CYMRU WALES

# A mwy o gamsyniadau

- Mae pob ysgol feddygol yn gofyn am Bioleg a Chemeg Safon Uwch – na, bydd rhai yn derbyn un a gwyddor arall ar gyfer y cwrs 5 mlynedd, mae Manceinion a Chaerdydd yn cynnig cwrs 6 blynedd (A 104 yng Nghaerdydd ar gyfer pynciau Safon Uwch heblaw gwyddoniaeth)
- Os na fydda i'n cael sgôr uchel yn yr UCAT/BMAT, fydda i ddim yn cael unrhyw gynigion - Mae'n dibynnu ar yr ysgol feddygol
- Rhaid i mi fynd ar gwrs paratoi i wella fy siawns - na
- Rhaid i mi fynd ar leoliad hir mewn ysbyty i gael siawns o gael cyfweliad – na, yn enwedig ddim nawr
- Mae'n helpu os oes gen i feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol yn fy nheulu - na, mae cyfeiriadau at feddygon teulu ac ati mewn datganiad personol yn cael eu hanwybyddu fel arfer
- Rhaid i mi fod wedi rhagori yn fy hobïau e.e. cerddoriaeth a chwaraeon – na, ond maen nhw'n hoffi gweithgareddau tîm
- Dwi am gymryd blwyddyn i ffwrdd, ond fydd ysgolion meddygol ddim yn hoffi hyn - Mae'n iawn, ond nodwch hynny ar eich ffurflen UCAS.

RCGP CYMRU WALES

# Yr hyn fydd ei angen arnoch chi ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion meddygol

- Graddau TGAU da (A*A neu 7/8/9 yn bennaf)
- Yn gallu cael 3 gradd A yn eich Safon Uwch – fel arfer yn cynnwys Bioleg a Chemeg neu ddwy wyddor yn cynnwys Bioleg neu Gemeg
- Wedi gwneud UCAT/BMAT
- Byddwch yn gwybod pam mai dyma'r yrfa i chi
- Byddwch wedi cwblhau'r datganiad personol yn ôl gofynion yr ysgol feddygol (ynghyd â gwybodaeth atodol o bosibl)
- Cefnogaeth eich athro yn y geirda
- Cyfweliad llwyddiannus



RCGP CYMRU WALES

# COVID-19 a gwneud cais

- Caniatawyd i ysgolion meddygol dderbyn myfyrwyr ychwanegol eleni ar ôl addasu'r graddau – ni ddylai hyn effeithio ar gynigion
- Mae pob ysgol feddygol yn ymwybodol y bydd y sefyllfa bresennol yn amharu'n drwm ar brofiad gwaith a gwirfoddoli eleni
- Mae ysgolion meddygol yn gwneud cynlluniau ar gyfer cyfweliadau rhithiol (gall hyn newid y ffordd maen nhw'n cyfweld)
- Mae llawer o ysgolion meddygol yn debygol o gyfweld ychydig yn hwyrach nag arfer a gwneud cynigion ychydig yn hwyrach nag arfer oherwydd effaith COVID ar eu gwaith (e.e. Ni fydd Caerdydd yn cyfweld tan fis Ionawr)
- Os byddwch chi'n gwneud cais y flwyddyn nesaf, mae'n debygol iawn y byddan nhw'n dal i gymryd y sefyllfa bresennol i ystyriaeth.

RCGP CYMRU WALES

# Caerdydd: Dewis ysgol feddygol – cyfleusterau

- **Campws Parc y Mynydd Bychan**
- **Safle a rennir:** Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Plant Cymru
- **Cyfleusterau addysgu pwrpasol:** buddsoddiad sylweddol yn Adeilad Cochrane, Adeilad Michael Griffith; Lolfa IV i fyfyrwyr.






RCGP CYMRU WALES

# Pa lwybrau sydd ar gael i Gaerdydd?

- Rydym yn cynnig **4 llwybr gwahanol** i ddod yn feddyg, yn dibynnu ar eich amgylchiadau
- Mae ein cwrs A100 (5 mlynedd) ar gyfer **myfyrwyr â thair Safon Uwch neu gyfwerth**, gan gynnwys Cemeg a Bioleg
- Mae ein cwrs A101 (4 blynedd) yn **gwrs mynediad i raddedigion**, ar gyfer graddedigion un o bedair rhaglen radd Ffrwd Fwydo yn unig (BSc mewn Ffarmacoleg Feddygol neu Wyddorau Biofeddygol (Prifysgol Caerdydd) a Gwyddorau Meddygol (Prifysgol Bangor neu Brifysgol De Cymru)
- Ein cwrs A102 (4 blynedd) yw ein cwrs C21 MBBCh, **a ddarperir yn y Gogledd ym Mhrifysgol Bangor**. Mae'n agored i raddedigion o'n cyrsiau gradd Ffrwd Fwydo fel uchod, yn ogystal â myfyrwyr cymwys sy'n dilyn y cwrs A100 sy'n dymuno trosglwyddo i Fangor ar ôl eu blwyddyn gyntaf yng Nghaerdydd
- Mae ein cwrs A104 (6 blynedd) yn cynnwys **blwyddyn ragarweiniol**, ac mae wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd â thair Safon Uwch, ond nad oes ganddyn nhw Gemeg A Bioleg ac efallai na fydd ganddyn nhw'r un ohonyn nhw i wneud cais i'n cwrs A100.

RCGP CYMRU WALES

# Pa ganlyniadau Safon Uwch fydd eu hangen arna i?

**Gofynion mynediad Safon Uwch 2020-21 - gofynnol**



- A100: **AAA** mewn Bioleg, Cemeg ac un pwnc arall
- A101 ac A102: **BBB neu ABC** yn Safon Uwch ynghyd â'r radd a gawsoch neu radd Anrhydedd ddisgwyliedig o **2:1 neu uwch**
- A104: **AAA** mewn tri phwnc; gallwch fod â Bioleg neu Gemeg ond **nid** y ddau. Gallwch fod heb y **naill neu'r llall** hefyd
- Ar gyfer pob cwrs, os yw eich Safon Uwch mewn gwyddoniaeth yn cynnwys gradd ar wahân ar gyfer gwaith ymarferol, rhaid i chi fod wedi **Pasio**
- Os oes gennych chi Safon Uwch Gyfrannol ond nid Safon Uwch lawn, mewn Cemeg neu Fioleg, **e-bostiwch** medadmissions@cardiff.ac.uk **i gael** cyngor.

RCGP CYMRU WALES

Mae gofynion mynediad yn newid dros amser, felly ewch i wefannau ysgolion meddygol i gael y wybodaeth ddiweddaraf bob amser.

# Gofynion Safon Uwch eraill

- **Gellir cynnwys un pwnc Mathemateg** Safon Uwch (o Fathemateg, Mathemateg Bellach ac Ystadegau)

- Ni fydd yr EPQ yn rhan o gynnig, ond mae'n ddefnyddiol ei gynnwys mewn datganiad personol i ddangos ymchwil annibynnol. **Ni dderbynnir** Astudiaethau Cyffredinol a Meddwl Beirniadol Safon Uwch

- Gellir cynnig Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle Safon Uwch. (Bydd angen **Gradd A** arnoch chi.)  Cofiwch fod angen **Bioleg a Chemeg** Safon Uwch arnoch chi o hyd - graddau A - os ydych chi'n gwneud cais am y cwrs A100

- Dydyn ni ddim yn edrych ar **raddau disgwyliedig nac ar raddau Safon UG.**



RCGP CYMRU WALES

# Pa raddau TGAU fydd eu hangen arna i?

**Mae'r graddau TGAU gofynnol i'ch galluogi chi i gael eich ystyried ar gyfer pob cwrs fel a ganlyn:**

- Saesneg iaith = 6 (B).
- Mathemateg neu Fathemateg Ychwanegol neu Rifedd = 6 (B)
- Cemeg **a** Bioleg = 6 (B) neu Wyddoniaeth Ddwbl = 66 (BB)
- Bydd angen cyfanswm o **naw** TGAU arnoch chi (gan gynnwys yr uchod)

Os ydych chi'n cynnig ystod o raddau 9/8/7 (A*A) yn eich cais, rydych chi'n gystadleuol a byddem yn eich annog i wneud cais. Rydym yn dyfarnu pwyntiau i bob gradd TGAU (a Safon Uwch/gradd) ac eglurir hyn ar y sleid nesaf

Bydd Caerdydd yn derbyn canlyniadau arholiadau TGAU wedi'u hailsefyll o fewn 12 mis i'r arholiad gwreiddiol, ac eithrio Saesneg Iaith (does dim dyddiad terfyn ar gyfer ailsefyll Saesneg Iaith).

RCGP CYMRU WALES

# Y broses ddethol a'r system pwyntiau

**Y broses ddethol = graddau a gyflawnwyd, datganiad personol, geirda academaidd, (UCAT).**

Rydym yn dyrannu nifer o bwyntiau i bob ymgeisydd yn seiliedig ar y cymwysterau y mae wedi eu cael, fel rhan o'r broses ddethol. **Caiff pwyntiau eu dyfarnu ar gyfer naw pwnc TGAU:** y pynciau gorfodol (ar y sleid flaenorol) ynghyd â'r gorau o'r gweddill. (Noder - rydym yn sgorio hyd at ddau bwnc TGAU Mathemateg yn unig.) Mae graddau Safon Uwch o AAA neu uwch a graddau anrhydedd yn rhoi pwyntiau i chi hefyd.

**TGAU**

9, 8, A* = 3 phwynt
7, A = 2 bwynt
6, B = 1 pwynt

**Safon Uwch (angen AAA)**

A* = 3 phwynt
A = 2 bwynt

**2:1 Gradd Anrhydedd** (graddau TGAU a Safon Uwch yn ofynnol)
27 pwynt i gyd

Yr uchafswm pwyntiau y gall ymgeisydd eu cyflawni yw 27. Ein nod yw cyfweld â mwy na 1,000 o ymgeiswyr â'r sgoriau uchaf (yn dibynnu ar y gyfradd ymgeisio). Mae'r sgôr terfyn ar gyfer cyfweliad yn amrywio bob blwyddyn ac yn dibynnu ar ba mor gystadleuol yw’r holl geisiadau. Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth gyd-destunol fel rhan o'n hymrwymiad i ehangu cyfranogiad.

RCGP CYMRU WALES

Gweler [www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/applying/contextual-data](http://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/applying/contextual-data)
Am ragor o wybodaeth

# Pa brawf derbyn sydd angen i mi ei ystyried?

Rhaid i **raddedigion**/israddedigion yn eu blwyddyn olaf (ac eithrio'r rhai sy'n gwneud cais am A104) sefyll yr arholiad GAMSAT

**Rhaid i bob ymgeisydd arall a graddedigion /israddedigion yn eu blwyddyn olaf sy'n gwneud cais am A104** sefyll yr UCAT (i'w sefyll yn yr haf cyn gwneud cais).




# Sut rydym yn defnyddio profion derbyn?

Gellir defnyddio canlyniadau UCAT a GAMSAT fel rhan o'r broses ddethol os bydd mwy o ymgeiswyr llwyddiannus na slotiau cyfweld/cynigion ar gael. Nid oes gennym isafswm sgôr trothwy.

RCGP CYMRU WALES

# Beth arall ddylwn i ei gadw mewn cof?

- Bydd gan ymgeiswyr a wahoddir i gyfweliad **sgoriau uchel, tystlythyrau academaidd cadarnhaol a datganiadau personol sy'n dangos y gofynion mynediad anacademaidd** a restrir yn ein llyfryn ac ar wefan Prifysgol Caerdydd. Yn y cyfweliadau, mae pob ymgeisydd yn gyfartal. Fydd y cyfwelwyr ddim yn gallu gweld eich datganiad personol na'ch ffurflen gais
- Allwn ni ddim rhagweld y sgôr terfyn sydd ei hangen ar gyfer cyfweliad bob blwyddyn (dyddiad cau UCAS ar gyfer ceisiadau yw 15 Hydref bob blwyddyn). Rydym yn defnyddio Cyfweliadau Bach Lluosog i benderfynu pa ymgeiswyr i wneud cynigion iddynt
- Yn anaml y derbynnir trosglwyddiadau o gyrsiau Meddygaeth eraill. Chewch chi ddim cychwyn gradd arall mewn unrhyw brifysgol a throsglwyddo ar ôl blwyddyn
- **Gwahoddir** ymgeiswyr rhyngwladol i e-bostio medadmissions@cardiff.ac.uk gyda'u pynciau a'u graddau
- **Amgylchiadau sy'n esgusodi**? E-bostiwch medadmissions@cardiff.ac.uk.

RCGP CYMRU WALES

# Beth os nad yw fy ngraddau TGAU yn ddigon uchel i gael cyfweliad?

A: Gwnewch gais i A100 unwaith y byddwch chi wedi cael eich canlyniadau Safon Uwch.

Mae graddau Safon Uwch da yn gwella eich siawns o gael eich gwahodd i gyfweliad. Gallai'r profiadau y gallech chi eu cael yn ystod blwyddyn allan (gwirfoddoli, er enghraifft) wella eich sgiliau fel meddyg a rhoi profiad gwerthfawr i chi.

A: Cyfeiriwch yn ôl at y sleid 'llwybrau amrywiol i Feddygaeth' ar ddechrau'r fideo hwn. Gallech chi ystyried rhaglen Ffrwd Fwydo neu radd arall.

RCGP CYMRU WALES

# Doedd fy Ngraddau a Aseswyd gan Ganolfan yn 2020 ddim mor uchel ag yr oeddwn i wedi ei ddisgwyl.

A: **Os cawsoch chi gynnig gennym ar gyfer mynediad yn 2020** ac os nad oedd y Graddau a Aseswyd gan Ganolfan yn ddigon uchel i'ch cynnig, gallwch sefyll eich arholiadau naill ai yn hydref 2020 **neu** haf 2021 (ond nid y ddau) ac ailymgeisio gyda ni nawr.  Ni fydd angen i chi ailsefyll yr UCAT na cael eich cyfweld eto. Os cewch chi'r graddau y gwnaethon ni ofyn amdanyn nhw, byddwn yn anrhydeddu'r cynnig wnaethon ni i chi.
**Os penderfynwch chi ddilyn y llwybr hwn, mae'n bwysig iawn eich bod chi'n ailymgeisio drwy UCAS a'ch bod yn dweud wrthym ni am eich cynlluniau cyn gynted â phosibl.**

A: **os na chawsoch chi gynnig gennym** ni, rydym yn hapus i chi wneud cais drwy UCAS nawr. Bydd gofyn i chi fynd drwy ein proses ddethol arferol a sefyll UCAT. Os nad ydych chi eisoes wedi ennill graddau AAA yn eich Graddau a Aseswyd gan Ganolfan, gallwch sefyll eich arholiadau naill ai yn hydref 2020 neu haf 2021 (ond nid y ddau).

RCGP CYMRU WALES

# Cysylltwch os oes gennych chi unrhyw gwestiynau nad ydyn ni wedi'u hateb yma

Os oes gennych chi gymwysterau eraill, amgylchiadau sy'n esgusodi neu os ydych chi am gael esboniad o unrhyw beth yn y cyflwyniad hwn, cysylltwch â thîm Derbyn yr Ysgol Feddygol, a fydd yn hapus i helpu.



E-bostiwch ni yn medadmissions@cardiff.ac.uk neu ffoniwch ni ar 029 2068 8113.

Mae'n amhosibl rhoi'r holl fanylion yma. Gofalwch eich bod yn darllen ein polisi a'n llyfryn i gael y manylion llawn. Mae'r rhain i'w cael ar ein gwefan www.cardiff.ac.uk/medicine/courses/undergraduate/medicine

RCGP CYMRU WALES

# Felly, rydych eisiau bod yn feddyg?



RCGP CYMRU WALES

# PWY



RCGP CYMRU WALES
















RCGP CYMRU WALES




RCGP CYMRU WALES

# PAM



RCGP CYMRU WALES



RCGP CYMRU WALES




RCGP CYMRU WALES

# Datganiad Personol

Rhinweddau meddyg

Eich rhinweddau chi

Cyflwyniad a Chrynodeb

RCGP CYMRU WALES

# Felly, be ydi pwynt datganiad personol?!

RCGP CYMRU WALES

# Rhinweddau meddyg

- Sgiliau cyfathrebu
- Empathi
- Arweinyddiaeth
- Gwaith tîm
- Gofalgar
- Profiad gwaith
- Gwytnwch
- Gwybodaeth

# Be ydi 'sgiliau trosglwyddiadwy'?

RCGP CYMRU WALES

Rhinweddau meddyg

Eich rhinweddau chi


# Datganiad Personol

Cyflwyniad a Chrynodeb


RCGP CYMRU WALES





RCGP CYMRU WALES




Fideo am **sgiliau trosglwyddiadwy** ar sianel YouTube Sesiwn Meddygon Teulu Ygsolion Gogledd Cymru






RCGP CYMRU WALES

# www.rcgp.org.uk




## Observe GP

Observe GP is an alternative to work experience for aspiring medics aged 16 and over, who are living in the UK. It is a free interactive video platform providing insights into the role of a GP and the wider primary care team.




msc Medical Schools Council

Observe GP is supported by the Medical Schools Council as a suitable element of relevant experience to help prepare an application to medical school.

RCGP CYMRU WALES

# Adnoddau

- www.medicalschools.ac.uk
- https://gpschools.wixsite.com/gpschoolssession
- https://www.ucas.com/explore/subjects/medicine-and-allied-subjects
- https://www.bma.org.uk/advice-and-support/studying-medicine

RCGP CYMRU WALES

# Adnoddau

- https://www.ucat.ac.uk/
- https://www.admissionstesting.org/for-test-takers/bmat/
- https://gamsat.acer.org/

# Cyfweliadau Ysgolion Meddygaeth

# Meddygaeth, moes, mwy

Dr Llinos Roberts

RCGP CYMRU WALES

# Cyfweliadau Ysgolion Meddygaeth

Os mai dim ond un peth ddarllenwch chi heddiw, dyma fo:

Journey to Medicine – paratowyd gan yr MSC

https://www.medschools.ac.uk/news/a-journey-to-medicine-new-resources-for-teachers-and-careers-advisers

RCGP CYMRU WALES

# Mathau o gyfweliad

- Mae trefn cyfweliadau yn amrywio o’r naill ysgol feddygaeth i’r llall – **gwiriwch y wefan eto os cewch chi gyfweliad.**
- Mae rhai yn dal i gynnal cyfweliadau “traddodiadol” e.e. Rhydychen, lle bydd nifer o’r staff, gan gynnwys o leiaf un meddyg fel arfer, ac yn aml myfyriwr, yn gofyn cwestiynau i chi – ond mae hyn yn llai cyffredin bellach gan ei bod hi’n anodd safoni marciau.
- Mae’r rhan fwyaf bellach yn defnyddio system o’r enw ‘cyfres o gyfweliadau byr’ (MMIs). Mae nifer y gorsafoedd MMI a ddefnyddir yn amrywio’n fawr o un ysgol feddygaeth i’r llall – e.e. rhwng 6 ac 14.

# Cyfres o gyfweliadau byr

Mae trefn cyfweliadau yn amrywio o le i le – gwiriwch wefannau unigol!

- Cyfweliadau byrion gyda phobl wahanol, yn eu tro.
- Datrys posau neu broblemau mathemategol
- Archwilio eich meddyliau: moeseg, empathi, ymdopi â straen ac ati.
- Ymarfer trafod pynciau llosg.
- Defnyddio gwefannau'r GMC ac MSC.

RCGP CYMRU WALES

# Cyfres o gyfweliadau byr



RC GP CYMRU WALES

# Mathau o gwestiynau mewn cyfres o gyfweliadau byr

**Cwestiynau enghreifftiol:**

Allwch chi ateb y cwestiynau hyn mewn 3 munud?

- Pam ydych chi eisiau astudio meddygaeth yng Nghaerdydd?
- Beth fyddech chi’n ei wneud pe baech chi’n gweithio ar brosiect ac yn sylwi nad yw un aelod o’r tîm yn cyfrannu?
- Roedd astudiaeth ddiweddar yn awgrymu y gallai dros hanner poblogaeth y DU fod yn ordew erbyn 2050. Ydy hyn yn destun pryder, ac os felly, pam?

# Cynghorion cyfweliad………

- Gwisgo'n drwsiadus
- Iaith y corff
- Beth ydych chi'n ei ddweud a sut
- Rhoi enghreifftiau lle bo modd
- Bod yn bositif
- Gofyn os nad ydych chi'n deall
- Ymlacio!

# Cynghorion cyfweliad………


Ateb y cwestiwn

Hunanfyfyrio

Bod yn bositif

Ymchwil

Ystyried y ddwy ochr



Dim panig!

Dim celwyddau

Dim ffugio

Dim atebion rhy berffaith

# Beth sydd angen i chi ei arddangos?

- Dealltwriaeth a didwylledd
- Diddordeb angerddol mewn meddygaeth a'r gallu i ddal ati
- Ymdopi dan bwysau
- Sgiliau cyfathrebu
- Datrys problemau

# Beth nesaf?

- Penderfyniad ar sail eich perfformiad mewn cyfweliad (+/- llwyddiannau academaidd blaenorol)
- Cynigion
  - wedi'r cyfweliad (rhai)
  - ar ôl i'r broses gyfweld orffen (rhan fwyaf)
- Cynigion > Lleoedd
- Cynnig erbyn mis Ebrill (fan bellaf)

# Gwneud y Dewis Gyrfa Cywir



Harri Pritchard

# Dylanwadau cynnar a pharhaus

- Profiadau nawr
- Profiadau mewn ysgol feddygol
- Profiadau yn ystod hyfforddiant Sylfaen
- Profiadau wrth ddilyn hyfforddiant arbenigol.

# Blynyddoedd sylfaen

**Blwyddyn Sylfaen Un (3 x 4 Mis)**

- Yn adeiladu ar wybodaeth a sgiliau a enillwyd mewn ysgol feddygol
- Cylchdroadau mewn gwahanol arbenigeddau gan gynnwys gofal sylfaenol
- Opsiynau i ddatblygu sgiliau fel ymchwil ac addysgu
- Cofrestriad llawn gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar ôl cwblhau Blwyddyn Sylfaen 1

**Blwyddyn Sylfaen Dau (3 x 4 Mis)**

- Parhau i gylchdroi drwy arbenigeddau amrywiol
- Datblygu cymwyseddau ym maes rheoli cleifion, gwaith tîm a chyfathrebu.
- Cyflawni tystysgrif cwblhau'r rhaglen sylfaen

# Pa arbenigedd i'w ddewis ?

**Ymarferwr Cyffredinol**

Mae meddyg teulu wedi'i hyfforddi'n llawn yn arbenigedd meddygaeth deulu a chlefyd cronig cymhleth ac yn gyfrifol yn gyffredinol am ofal cleifion y tu allan i'r ysbyty, gan eu hatgyfeirio am driniaeth arbenigol os oes angen.

Isafswm hyd yr hyfforddiant - 10 mlynedd

**Meddyg Ymgynghorol**

Mae meddyg ymgynghorol yn feddyg sydd wedi'i hyfforddi'n llawn mewn arbenigedd penodol â chyfrifoldeb cyffredinol dros ofalu am gleifion, gan amlaf ond nid bob amser yn yr ysbyty.

Isafswm hyd yr hyfforddiant - 13 blynedd

RCGP CYMRU WALES

# Realiti Meddygaeth

Manteision ⟷ Heriau

CYMRU
WALES

# Beth yw meddyg teulu?

- Mae meddygon teulu yn arbenigwyr yn eu cleifion
- Pwynt cyswllt cyntaf â'r GIG
- Dros 1 filiwn o ymgynghoriadau gan feddygon teulu yn y DU bob dydd!
- Ystod eang o gyflyrau meddygol
- Yn trin cleifion drwy gydol eu bywydau
- Yn hanfodol i'r gymuned leol.

RCGP CYMRU WALES

# Beth mae meddyg teulu yn ei wneud?

Hysbysu ac Esbonio
Gwneud Diagnosis
Atgyfeirio
Myfyrio
Rheoli Amser

RCGP CYMRU WALES

# Beth mae meddyg teulu yn ei wneud?

Gonestrwydd

Llythrennedd Iechyd

Plant

Hysbysu ac Esbonio
Gwneud Diagnosis
Atgyfeirio
Myfyrio
Rheoli Amser

Ansicrwydd

Empathi

Clefyd Cronig

Rhwystrau Iaith

Henoed

Perthynas â Phobl

Cyflyrau Acíwt


RCGP CYMRU WALES

# Dyluniwch yrfa i'ch siwtio chi

- ✓ Gyrfa hyblyg
- ✓ Ystod o ymarfer a lleoliadau cymunedol
- ✓ Chwaraeon, gwleidyddiaeth, busnes, digwyddiadau, y lluoedd arfog.



# Dewisiadau gyrfa o fewn ymarfer cyffredinol



Mae bod yn feddyg teulu yn swydd gwbl unigryw – ni yn aml yw'r bobl gyntaf y mae ein cleifion yn troi atyn nhw'n rheolaidd am help, yn aml ar adegau anoddaf eu bywydau, ac rydym yn meithrin perthynas o ymddiriedaeth â nhw dros amser. Mae'r fraint honno bron yn unigryw i feddygaeth.

Yr Athro Helen Stokes-Lampard
Meddyg Teulu a Chyn-Gadeirydd
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu

# BYWYD MYFYRIWR MEDDYGAETH

Rhian Morgan

RCGP CYMRU WALES

# Pum ffaith ddifyr am fod yn fyfyriwr meddygaeth

- Mae'n golygu mwy na dim ond astudio meddygaeth yn unig
- Mae'n golygu gwaith caled (ond ddim bob amser)
- Mae'n golygu meithrin sgiliau trosglwyddadwy y gallwch eu defnyddio yn unrhyw le
- Mae'n golygu gwneud ffrindiau am oes a datblygu sgiliau bywyd
- Mae'n golygu beth bynnag yr hoffech iddo ei olygu!

# Beth sydd ei angen arnoch i fynd i fyd meddygaeth a dod yn feddyg

1. Awch ac angerdd!

2. Penderfyniad

3. Hunan-gred/hyder. Dydych chi ddim gwell na gwaeth nag unrhyw ymgeisydd arall!

RCGP CYMRU WALES

# Lle i astudio?




- Dinas v campws
- Maint, pellter
- Sgoriau ymchwil ac addysgu
- Lleoliadau
- Dull/cwrs addysgu
- Llety – math, lleoliad, cost
- Cyfleusterau Undeb y Myfyrwyr
- Cysylltiadau trafnidiaeth
- Argymhellion
- Pa mor gyfeillgar

**COFIWCH YMWELD**

RCGP CYMRU WALES


# Dewis doeth

- Mae gwefan y Medical School Council – sy'n hollbwysig – yn cynnwys manylion am ysgolion meddygaeth y DU, eu cyrsiau a'r gofynion mynediad
- https://www.medschools.ac.uk/studying-medicine/medical-schools
- Gwefannau pob ysgol feddygaeth rydych chi'n gwneud cais iddyn nhw, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y **gofynion mynediad** a manylion y cwrs
- Os nad yw'r gofynion mynediad yn glir i chi, e-bostiwch swyddfa derbyniadau yr ysgol feddygaeth – bydd y cyfeiriad e-bost ar y wefan

RCGP CYMRU WALES

# Chwalu'r mythau am fyfyrwyr meddygaeth






- Mae'n golygu llawer

mwy na ………………..





# Cynnwys y cwrs

Cwrs traddodiadol

Darlithoedd a thiwtorials – am 2/3 blynedd (cyn-glinigol)

Seiliedig ar wyddoniaeth

Blynyddoedd clinigol i ddilyn

Cwrs integredig

Dechrau rhywfaint o waith clinigol o'r diwrnod cyntaf

Addysgu seiliedig ar wyddoniaeth law yn llaw â hyfforddiant clinigol

Dysgu seiliedig ar broblemau (PBL)

Gwaith grŵp bach, addysgu gan gymheiriaid, deall trwy ddatrys problemau

Gofal seiliedig ar ofal (CBL)

Gwaith grŵp bach sy'n denu myfyrwyr i drafod sefyllfaoedd penodol o enghreifftiau bywyd go iawn, gyda'r claf wrth galon lleoliad clinigol yn gynnar – Blwyddyn 1 fel arfer

# Cyrsiau – cyrsiau dewisol a mwy………




RCGP CYMRU WALES

# Graddio a thu hwnt





RCGP CYMRU WALES

# Adolygiad gweminar ac yn cau

Dr Dylan Parry